

CV Cryno o'r Meysydd Gallu a Phrofiad

- Ysgrifennu strategaethau corfforaethol drafft megis Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, Cynlluniau Iaith Gymraeg, Strategaethau Sgiliau Ieithyddol a Strategaethau 5-mlynedd o dan Safonau'r Gymraeg;
- Paratoi a chyflwyno adroddiadau blynyddol dros lawer o flynyddoedd ar gynnydd yn erbyn y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus yng Nghymru, a chynnydd o ran gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg a thargedau o dan y Safonau Iaith Gymraeg;
- Darparu cyngor polisi i Dimau Rheoli Corfforaethol, Cabinet a Phwyllgorau Craffu awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ar faterion datblygu a chydymffurfiaeth o ran Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg;
- Delio ag asesiadau effaith Cydraddoldeb a'r Gymraeg cynhwysfawr, yn enwedig ar gyfer cynigion o ran arbedion/toriadau;
- Gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu proffiliau ardal o ran y Gymraeg i'w defnyddio fel rhan o Strategaethau 5-mlynedd y Gymraeg ac fel tystiolaeth o fewn Arfarniadau Cynaliadwyedd Integredig o fewn Cynlluniau Datblygu Lleol.
- Wedi datblygu a chyhoeddi nifer fawr o ganllawiau ymarferol o ran rhoi materion Cydraddoldeb a'r Gymraeg ar waith o fewn sefydliad (ar faterion yn ymwneud â phrosesau cyfieithu, swyddogaethau AD, Caffael, Cwynion er enghraifft);
- Denu incwm i gynorthwyo prosiectau ym maes Cydraddoldeb a'r Gymraeg - rhwng 2008 a 2015, llwyddais i ddenu dros £180,000 o adnoddau ariannol ac adnoddau eraill i gyllideb y tîm o nifer o ffynonellau;

- Yn dilyn o'r uchod, rwyf wedi ysgrifennu bidiau ar gyfer cyllid a grantiau, neu wedi cynorthwyo eraill i wneud hynny er mwyn sicrhau ffurflenni cais cryfach a chanlyniadau llwyddiannus i'r bidiau hynny mewn nifer o achosion;
- Delio â chwynion sydd ag agweddau Cydraddoldeb ac Iaith Gymraeg iddynt (hyd at a gan gynnwys lefel Ymchwiliadau Statudol Comisiynydd y Gymraeg a chwynion a gynyddodd i lefel Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru), o ran systemau corfforaethol ar gyfer cofnodi a monitro cwynion a hefyd gweithio gyda gwahanol adrannau, ysgolion a Chyrff Llywodraethol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Cyfreithiol ar drin a datrys cwynion penodol;
- Delio â rhoi cymorth i, a dylunio strwythurau Rheoli Perfformiad, er mwyn cynnig cymorth corfforaethol i holl adrannau'r cyngor wrth briffrydio Cydraddoldeb a'r Gymraeg i'r gwaith dyddiol;
- Llywodraethu Corfforaethol - yn gyffredinol, yn dilyn o'r uchod, mae gen i ddealltwriaeth dda o holl weithgareddau corfforaethol a strategol sefydliad sector cyhoeddus ac felly â sgiliau da o ran clymu prosiectau amryw at ei gilydd mewn ffyrdd creadigol ac annisgwyl;
- Gweithio gyda staff Addysg Lleol, penaethiaid a llywodraethwyr ers 2011 ar Gynlluniau ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol enghreifftiol ar gyfer ysgolion a gweithdrefnau a systemau monitro bwlio gwahaniaethol;
- Cydlynu datblygiad a darpariaeth cyrsiau Cydraddoldeb a'r Gymraeg, gan gynnwys darparu'n bersonol sesiynau ar Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb Cyffredinol, y Safonau Iaith Gymraeg, Bwlio Gwahaniaethol mewn Ysgolion ac Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (yn Gymraeg a Saesneg);
- Wedi arwain y tîm o gyfieithwyr ac yn ymgymryd â nifer fawr o ddarnau o gyfieithu a phrawf-ddarllen yn Gymraeg a Saesneg;

- Yn aelod o bwyllgor rheoli Menter Iaith Caerffili ers ei sefydlu ym 1999 ac o Awst 2017 i Ragfyr 2020, fi oedd y cadeirydd. (Mae Mentrau Iaith yn sefydliadau sector gwirfoddol iaith Gymraeg ar sail ardal);
- Roeddwn yn gyd-gadeirydd Rhwydiaith, sef rhwydwaith swyddogion Iaith Gymraeg Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gynnar yn y 2000au ac roeddwn yn siaradwr yng nghynhadledd flynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn 2013;
- Wedi creu cysylltiadau ledled Cymru ac ymhellach o ran defnydd ieithoedd lleiafrifol, materion cydraddoldeb a chydlyniant cyhoeddus;
- Awdur (trwy CBS Caerffili) o lyfryn *"Enwau Lleoedd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili"* yn 2014 fel canlyniad hollol annisgwyl o'r swydd o ran y Gymraeg ar arwyddion ffordd (diwygiwyd yn 2016) a llyfryn Enwau Lleoedd gyda Menter Bro Ogwr dros ardal Penybont-ar-Ogwr yn 2017, a gafodd ei lansio yn Eisteddfod yr Urdd Pen-y-bont, Taf ac Elái ym mis Mai 2017;
- Ers mis Chwefror 2018 rwyf wedi bod yn aelod cyswllt o sefydliad Tai Pawb, yn ymgymryd â hyfforddiant a gwaith prosiect Cydraddoldeb ar eu rhan i sefydliadau aelod o fewn y sector tai;
- Yn 2018, fi oedd cyd-awdur cyhoeddiad Comisiynydd y Gymraeg - "Strategaethau 5 mlynedd: canllaw arfer da i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol";
- Rheoli Prosiectau - profiad o fod yn rheolwr prosiect ar brosiectau bach a chanolig yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan fod yn gyfrifol am sicrhau adroddiadau cynnydd, gan gynnwys adroddiad terfynol cyflwyno'r prosiect, cynnal rheolaeth fersiwn ar elfennau o waith y prosiect, rheolaeth gyllidebol a gweinyddiaeth a chydlynu cyffredinol;
- Siopa Cudd - Mae gen i brofiad o ymgymryd ag ymarferion siopa cudd, a bod ar yr ochr arall o fod yn destun siopa cudd, o ran darpariaeth wasanaeth Gymraeg, ac felly rwy'n deall y fethodoleg a'r gwerth o'r ddau safbwynt.
- Yn aelod o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru ers Mehefin 2023.

Addysg

- Ysgol Gymraeg Tyderwen, Maesteg (1970 - 1978)
- Ysgol Gyfun Llanhari (1978 - 1985) (8 Lefel 'O', 2 Lefel 'A')
- BTEC HNC Gweinyddiaeth Gyhoeddus (Polytechnig Cymru) 1989
- BA (Anrh) Rheolaeth Gyhoeddus (Prifysgol Morgannwg) 1999
- MSc Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (Prifysgol Caerdydd) 2010
- Hawliau Dynol ar gyfer Cymdeithasau Agored (Prifysgol Utrecht, trwy Coursera ar-lein) 2016

Cyflogaeth

- Cyngor Sir Morgannwg Ganol:
Adran Addysg (Tachwedd 1985 - Mawrth 1996)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyfadran Addysg (Ebrill 1996 - Rhagfyr 1997)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Uned Bolisi (Ionawr 1998 - Gorffennaf 2016)
- Cyngor Caerdydd - Caerdydd Ddwyeithog
(Tachwedd 2017 - presennol, rhan amser)
- Cwmni2
(Ionawr 2016 - heddiw)

Cleientiaid

Ers bod yn llawrydd, rwyf wedi gweithio gyda llawer o sefydliadau o'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol, iechyd, tai, preifat ac eglwysi (fel y rhestrir isod).

- Active Learning Team
- Alzheimer's Society Cymru
- Biomorphic Energy Productions
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Business Language Services
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- ClearWave Productions
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Communicorp UK
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- Educ8 Training Limited
- Diogelwch Trydanol yn Gyntaf
- Engineering UK
- Ymddiriedolaeth y Teulu a Gofal Plant
- Made Open Ltd.
- Menter Bro Ogwr
- Menter Caerffili
- Mentrau Iaith Cymru
- Menter Iaith Fflint a Wrecsam
- Menter Sir Gâr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru
- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Reach: Tîm Datblygu Gwledig Pen-y-bont ar Ogwr
- Red Shiny Apple
- Red Squirrel Marketing

- Y Lleng Prydeinig Brenhinol
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru
- Sportin Wales
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Cartrefi Cymunedol Tai Calon
- Tai Pawb
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Trafnidiaeth Cymru
- Cyngor Bro Morgannwg
- Llywodraeth Cymru
- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC)
- Comisiynydd y Gymraeg
- what3words